# CYSUR 3 2021

# Adolygiad Ymarfer Plant Cryno




## 1 Yr Amgylchiadau ag Arweiniodd at yr Adolygiad

Disgrifiwyd Plentyn A fel merch wych, benstiff. Ym mis Hydref 2020, gwnaeth y gwasanaeth Ambiwlans fynd i gartref teulu’r ferch 16 oed, ond yn anffodus daethant o hyd iddi hi’n farw. Roedd cyflwr ei chorff yn dangos esgeulustod cronig, ac roedd pryderon sylweddol am ei hamgylchedd byw uniongyrchol. Gwnaeth yr archwiliad post-mortem ddangos bod Plentyn A yn ddifrifol ordew ac nad oedd yn gallu symud; gwnaeth llid a haint helaeth arwain at ei dioddefaint ac at ei marwolaeth yn y pen draw. Roedd Plentyn A wedi bod yn cael ei gwarchod ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020 a chafodd ei chlywed ddiwethaf yng nghefndir trafodaeth dros y ffôn gyda'i hysgol ar 17 Gorffennaf 2020. Roedd cynlluniau ar y gweill iddi ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020, ond adroddodd mam Plentyn A am anhwylderau amrywiol a wnaeth atal iddi ddychwelyd.

## 2 Cefndir y Plentyn a’r Teulu

Plentyn A oedd y pumed o chwech o blant a gafodd eu geni i'w rhieni yng nghefn gwlad Cymru. Roedd hi’n mwynhau bod yn actif yn fawr iawn a dywedwyd, gyda'r cyfleoedd a'r gefnogaeth iawn, y gallai hi fod wedi bod yn Baralympian yn y dyfodol. Ganwyd Plentyn A gyda spina bifida (SB), un o'r cyflyrau anabledd parhaol mwyaf cymhleth. Roedd ganddi anawsterau sylweddol gyda'r bledren a'r coluddyn, parlys ei choesau ac roedd yn gaeth i gadair olwyn. Cafodd Plentyn A nifer o apwyntiadau yn ystod ei hoes gyda gwasanaethau arbenigol ledled Cymru a Lloegr; fodd bynnag, cafodd llawer ohonynt hefyd eu colli. Gwnaeth ei rhieni ei chynorthwyo hi bob dydd gyda gofal cymhleth a phersonol nes iddi gael llawdriniaeth a hwylusodd hunan-gathetreiddio. Erbyn iddi gyrraedd 12 oed, roedd gweithwyr proffesiynol a'i theulu wedi’i chefnogi hi yn ei hannibyniaeth yn yr ysgol a thrwy chwaraeon. O ganlyniad, gwnaeth y gwasanaethau anabledd ryddhau Plentyn A yn 2017.

## 3 Themâu Allweddol: Gofal a Chefnogaeth

Roedd Plentyn A eisiau byw "bywyd normal". Fodd bynnag, roedd ei chyflwr yn un gydol oes, a byddai angen cynllunio pontio wrth iddi agosáu at fod yn oedolyn. Nid oedd Plentyn A yn destun cynllun gofal a chymorth, a allai fod wedi cefnogi'r cynllunio pontio hwn. Cododd cymhlethdod anghenion Plentyn A gwestiynau ar gyfer gwasanaethau o ran ystyried sut y mae modd cydlynu gofal a chefnogi plentyn ag anableddau cronig nad yw'n destun cynllun gofal a chymorth ffurfiol, y mae angen cydsyniad ar ei gyfer. Mae hyn yn arbennig o heriol yng nghyd-destun ardaloedd gwledig sydd ag adnoddau cyfyngedig, a gwasanaethau sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr a bod y ddwy yn rheoli elfennau penodol o anabledd plentyn. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried yr heriau y gwnaeth rhieni Plentyn A eu hwynebu wrth reoli’i gofal, ac roedd yn adlewyrchu y byddai wedi bod modd cwblhau asesiad gofalwr i archwilio hyn.

## 4 Themâu Allweddol: Pwysau a Spina Bifida

Roedd pwysau Plentyn A wedi bod yn bryder ers tro, ac mae gordewdra yn aml yn gysylltiedig â spina bifida oherwydd gallu cyfyngedig plant paraplegig i losgi caloriau. Yn gyd-destunol, mae’n hysbys bod 25% o blant oed ysgol ym Mhowys dros eu pwysau. Roedd clorian bwyso hygyrch o fewn ychydig gannoedd o fetrau i ysgol Plentyn A, fodd bynnag, nid oedd pob ymarferydd iechyd yn ymwybodol o sut y byddai modd defnyddio hyn. Roedd yna wybodaeth ymarfer am bwysau cynyddol Plentyn A, ond absenoldeb monitro ac adolygu.

Roedd Plentyn A a’i rhieni yn ymgysylltu’n dda â gweithwyr proffesiynol a gallent ddatblygu perthynas ymddiriedus â nhw a gwnaethant weld bod mewnbwn un dietegydd yn ased i’r teulu cyfan.

## 5 Arfer Da wedi’i Nodi

- Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn gallu sefydlu perthynas ddibynadwy â theulu Plentyn A, a oedd yn cefnogi ymgysylltu
- Cafodd Plentyn A a'i rhieni gyngor am driniaeth gychwynnol ar gyfer lymffoedema, pan geisiodd y rhieni sylw meddygol am ei chroen yn dirywio, a gwellodd y cyflwr
- Manteisiodd Plentyn A ar ddatblygiadau mewn gofal wrolegol a all atal marwolaeth gynamserol y mae modd ei hosgoi i blant â spina bifida
- Cefnogodd yr ysgol blentyn A i archwilio dewisiadau gyrfa a gwnaeth hi gwblhau ei Hadolygiad Anghenion Addysgol Arbennig ym mis Gorffennaf 2020 dros y ffôn
- Mae rhywfaint o dystiolaeth i’w gweld o rannu gwybodaeth dda a chofnodi llais Plentyn A mewn cofnodion yr asiantaeth
- Cafodd broses bontio Plentyn A i'r ysgol uwchradd ei chefnogi gan gynllunio pontio cadarn i ddiwallu ei hanghenion corfforol

## 6 Gwella Systemau ac Ymarfer

- Dylai asesiadau gofal a chymorth gael eu cynnig yn gyson a dylai cynlluniau dilynol ganolbwyntio ar ganlyniadau
- Dylai'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad ar y cyd o'r prosesau a'r llwybrau sydd ar waith ar gyfer plant ag anableddau cronig
- Dylai ymarferwyr gyfathrebu'n uniongyrchol â phlant, beth bynnag yw’r rhwystrau, a gwrando ar eu barn a'u cofnodi
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd godi ymwybyddiaeth am Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi’i ddiweddaru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ei weithredu a’i wreiddio.
- Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu’r cyfle i fanteisio ar wasanaethau lymffoedema ar gyfer plant yr ardal

## 7 Gwella Systemau ac Ymarfer

- Dylai Bwrdd Iechyd ymwreiddio'r Polisi Ni Ddaethpwyd â’r Plentyn ymhellach ac ystyried cyfranogi trawsffiniol
- Dylai'r Awdurdod Lleol adolygu canllawiau ymarfer cau achosion ar gyfer Gwasanaethau Anabledd Integredig (IDS) a Chymorth Cynnar Gwasanaethau Anabledd Integredig i sicrhau bod y broses o gau pob achos yn cynnwys cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a bod y broses o ailatgyfeirio gan gynnwys ar gyfer anghenion pontio at fyd oedolion, pan fo’i hangen, yn glir.
- Dylai'r Awdurdod Lleol adolygu Cynnig Cymorth Cynnar Gwasanaethau Anabledd Integredig er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaeth effeithiol
- Dylai ystyried bod y 'Llygaid' ar bolisi a gafodd ei weithredu gan yr ysgol yr oedd Plentyn A yn cael ei gyflwyno ar draws ardal yr Awdurdod Lleol fel esiampl o arfer da